Asiant Cefnffyrdd De Cymru
South Wales Trunk Road Agent

TW004

Uned Rheoli Cefnffyrdd

☎ 0300 123 1213

enquiries@southwales-tra.gov.uk

23/09/2024

RE: DIWEDDARIAD: A487 20 C55 – Cwlfer Royal Oak - Gwaith Amnewid Cwlfer

At sylw'r person perthnasol.

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod i chi fod y cynhelir gwaith hanfodol yn 2025 i ail-leoli'r A487 20 C55 Cwlfer Royal Oak, sydd wedi'i leoli yn Nhrefdraeth, Sir Benfro, gweler y map:



Fel y gwyddoch eisoes o'n cyfathrebiad blaenorol, mae angen newid y cwlfer gan ei fod yn agosáu at ddiwedd ei oes, ac mae rhai diffygion sylweddol ynddo. Yn anffodus, oherwydd maint bach y cwlfer a'r

Yn gweithio ar ran
Llywodraeth Cymru
Working on behalf of the
Welsh Government

Unit 12
Llandarcy House
The Courtyard
Llandarcy
Neath
SA10 6EJ

cyfyngiadau mewn mynediad cysylltiedig, nid yw'n bosibl trwsio'r diffygion, ac felly ein hunig opsiwn yw ei ail-leoli.

Mae nifer sylweddol o wasanaethau gweithredol statudol o gwmpas y cwlfer, gan gynnwys Dŵr (glân a brwnt), Nwy, Trydan a Thelathrebu; gweler cynllun y gwasanaeth isod:



Mae angen gwneud rhywfaint o waith galluogi i ailgyfeirio offer telathrebu cyn i'r gwaith amnewid cwlfer cychwyn. Bwriedir cyflawni'r prif waith sifil ar y safle yn ystod mis Hydref 2024, a bydd angen cau rhai rhannau o'r A487. Rydym yn deall y bydd y cau hyn yn achosi aflonyddwch, ac rydym am sicrhau eich bod yn gwybod ein bod yn cymryd pob cam er mwyn lleihau'r effaith arnoch. Am y rheswm hwn, bydd cau'r ffordd ar gyfer y gwaith yn gyfyngedig i ddyddiau Sul yn unig. Bwriedir hyn er mwyn lleihau'r effaith ar drafnidiaeth, gwasanaethau cyhoeddus, a busnesau lleol. Dyma'r dyddiadau gwaith ar y Suliau a gynlluniwyd:

- Dydd Sul 20fed Hydref
- Dydd Sul 27ain Hydref
- Dydd Sul 3ydd Tachwedd
- Dydd Sul 10fed Tachwedd

Bydd diweddariadau pellach ar drefniadau rheolaeth traffig ar gael ar wefan www.traffig.cymru maes o law.

Byddwn yn cau'r A487 rhwng 0900 a 1900 ar bob un o'r dyddiadau uchod, a bydd hyn yn weithredol rhwng Ffordd Parrog a Stryd y Farchnad. Er mwyn lleihau rhywfaint o'r aflonyddwch a achosir wrth gau'r ffordd, rydym wedi bod yn gweithio â Chyngor Sir Benfro i wrthod y system unffordd dros dro ar Ffordd y Gorllewin Uchaf / Stryd y Bont Uchaf. Defnyddir hwn fel llwybr amgen dros dro i draffig lleol (ceir a faniau bach llai na 3.5T) gyda defnydd o oleuadau traffig dwyffordd, pan fydd yr A487 ar gau bob dydd Sul. Cyfeiriwch at y llwybr dargyfeirio swyddogol sydd wedi'i atodi ar gyfer traffig, gan gynnwys cerbydau nwyddau trwm; bydd y llwybr yn mynd drwy'r A487 i'r gorllewin i Abergwaun, i'r

Unit 12
Llandarcy House
The Courtyard
Llandarcy
Neath
SA10 6EJ

de ar hyd yr A40 i Hwlffordd, tua'r dwyrain ar hyd yr A40 i Gylchfan Penblewin ac yna tua'r gogledd ar hyd yr A478 i Aberteifi i ail-ymuno â'r A487: ac i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin.

Ar ôl cwblhau cau'r ffyrdd ar y dyddiau Sul fel y soniwyd uchod, bydd angen gwneud rhywfaint o waith ychwanegol gan Openreach, ynghylch uno'r ceblau newydd ac ati, ond caiff ei wneud pan fydd rheolaeth traffig arferol ar yr A487 ym mis Tachwedd/Rhagfyr, ac ni fydd angen cau'r ffordd. Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei rhyddhau am hyn, unwaith y byddwn yn derbyn rhaglen waith gan Openreach.

Ar gyfer y prif waith amnewid cwlfer, mae'r cynllun ar gyfer y cwlfer newydd bron wedi'i gwblhau ac yna bydd rhaglen adeiladu fanwl yn cael ei datblygu. Disgwylir i'r gwaith amnewid cwlfer gychwyn yn gynnar yn 2025, ac y bydd yn cymryd tua 8 wythnos i'w gwblhau; bydd gwybodaeth bellach yn cael ei chyhoeddi am y manylion penodol maes o law.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ar y cam hwn, cysylltwch â'r Tîm Cyflawni Adeiladau drwy enquiries@southwales-tra.gov.uk.

Yr eiddoch yn gywir



Richard Jones

Pennaeth Gwasanaeth - Asiantaeth Cefnffyrdd

Yn gweithio ar ran
Llywodraeth Cymru
Working on behalf of the
Welsh Government

Unit 12
Llandarcy House
The Courtyard
Llandarcy
Neath
SA10 6EJ